

31/08/21

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Gyda dechrau'r flwyddyn academaidd yn gyflym nesáu, ac yn dilyn diweddariad i ganllawiau ysgolion ([Canllawiau gweithredol i ysgolion a lleoliadau \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#)), hoffwn gadarnhau trefniadau ail agor o'r 2ail o Fedi gyda chi.

| Dyddiad | Gweithgaredd |
|-----------------|--|
| Iau 02/09/21 | HMS i staff yr ysgol – dim disgyblion |
| Gwener 03/09/21 | Blwyddyn 7 a 12 yn unig i fynychu'r ysgol |
| Llun 06/09/21 | Pob disgybl yn dychwelyd Bl.7-13eg |

TREFNIADAU IECHYD POB DISGYBL:

Ni ddylai dysgwyr fynychu'r ysgol o dan unrhyw amgylchiadau os ydynt:

- yn teimlo'n sâl gydag unrhyw un o symptomau COVID-19 (peswch parhaus tymheredd uchel; colli blas; colli arogl)
- wedi profi'n gadarnhaol ar gyfer COVID-19
- bod gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu (POD) wedi cysylltu gyda nhw a'u cyfarwyddo i hunan ynysu
- yn byw ar aelwyd gyda rhywun sydd â symptomau, neu sydd wedi profi'n gadarnhaol ar gyfer COVID-19 – heblaw eu bod wedi eu brechu'n llawn neu eu bod iau na 18 oed

Bydd unrhyw un sy'n datblygu symptomau COVID-19 yn ystod y diwrnod ysgol yn cael ei anfon adref ar unwaith.

Byddwn yn parhau i weithredu ar y cyngor iechyd rydym yn ei dderbyn gan y llywodraeth a'r All, sef sicrhau y bod pawb yn yr ysgol yn:

- **Golchi dwylo'n drylwyr neu ddiheintio dwylo yn amlach nag arfer.**
- **Cynnal hylendid anadlol da drwy hyrwyddo'r dull 'ei ddal, ei daflu, ei ddifa, golcha dy ddwylo'.**
- **Lleihau'r cyswllt rhwng unigolion a chadw pellter cymdeithasol pan fo'n bosibl.**
- **Sicrhau bod pob ystafell a choridor yn cael ei awyru'n addas.**
- **Glanhau'n amlach, gan gynnwys glanhau arwynebau sy'n cael eu cyffwrdd yn aml yn rheolaidd,**

Fel nodwyd cyn gwyliau'r haf, mae rhai newidiadau allweddol i drefniadau ysgolion o fis Medi 2021.

- Ni fydd rhaid i ddigybllion ddefnyddio gorchuddion wyneb yn rheolaidd mewn ystafelloedd dosbarth, ond fe fydd rhaid eu defnyddio ar y coridorau, y neuaddau a'r ffreutur ac ar gludiant ysgol.
- Ni fydd grwpiau cyswllt/swigod yn cael eu hargymell mwyach – bydd POD yn arwain ar nodi cysylltiadau agos staff a dysgwyr sy'n profi'n bositif, yn yr un modd ag y byddent ar gyfer unrhyw brofion unigol eraill y tu allan i'r ysgol/lleoliad.
- Byddwn yn annog ein disgyblion i brofi ar ddau achlysur cyn dychwelyd i'r ysgol. Gweler y cyngor yma gan Lywodraeth Cymru: [Cael profion llif unffordd COVID-19 cyflym os nad oes gennych symptomau | LLYW.CYMRU](#). Gweler [y cyngor yma](#) ar sut i weinyddu profion llif unffordd.



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
 Heol Gwryosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
 Ffôn 01792 560600

Ebost: SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies



**BUDDSODDWR
MEWN POBL**

| Aur



- Bydd amserau'r dydd yn dychwelyd i'r amserau arferol (gweler isod).

| CA3 (Bl. 7-9) | | CA4 a 5 (Bl. 10-13) | |
|---------------|------------------------|---------------------|------------------------|
| Amser | Gweithgaredd | Amser | Gweithgaredd |
| 08:30 | Cofrestru | 08:30 | Cofrestru |
| 09:00 | Gwers 1 | 09:00 | Gwers 1 |
| 09:50 | Egwyl | 09:50 | Gwers 2 |
| 10:10 | Gwers 2 | 10:40 | Egwyl |
| 11:00 | Gwers 3 | 11:00 | Gwers 3 |
| 11:50 | Cinio | 11:50 | Gwers 4 |
| 12:40 | Gwers 4 | 12:40 | Cinio |
| 13:30 | Gwers 5 | 13:30 | Gwers 5 |
| 14:20 | Gwers 6 | 14:20 | Gwers 6 |
| 15:10 | Diwedd y diwrnod ysgol | 15:10 | Diwedd y diwrnod ysgol |

Byddwn yn rhannu'r mesurau a threfniadau llawn Cofid gyda chi erbyn dechrau'r tymor.

Yn dilyn y cyfnod trosglwyddo, rydym yn **disgwyl y bydd pob disgybl yn gwisgo'r wisg ysgol newydd ym mis Medi**. Gwych yw derbyn nifer o sylwadau hynod o bositif am ymddangosiad ein disgyblion yn y wisg newydd. Mae'r manylion ar gyfer y wisg ar gael [yn y llythyr yma](#) ac ar werth gan gwmni Bergoni. Fel y nodwyd yn y llythyr, roedd caniatâd gan ein disgyblion i wisgo'r 'hen wisg' yn ystod 12 mis y cyfnod trosglwyddo hyd at Fedi 2021. Nid yw trowsus tracwisg neu socasau (leggings) yn addas fel rhan o'r wisg ysgol. Gweler y safwe ([Gohebiaeth :: Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe](#)) am fanylion llawn y wisg ysgol, gan gynnwys ein disgwyladau ar gyfer esgidiau ysgol ac ar gyfer tlysau yn y trwyn. Diolch i ran helaeth o'n disgyblion a'n rhieni am gefnogi ein disgwyladau gyda'r wisg ysgol yn ddyddiol fel bod ymddangosiad ein disgyblion yn destun balchder. Disgwylir i ddisgyblion hefyd ddod ag offer dysgu eu hun at eu defnydd personol nhw.

Byddwn yn darparu cinio ysgol a byrbrydau amser egwyl fel arfer. Byddwn yn rhannu'r trefniadau llawn gyda'r disgyblion pan fyddant yn dychwelyd. Ni fyddwn yn gweithredu clwb brecwast am y bythefnos gyntaf o'r tymor, gan obeithio ail ddechrau ar yr 20/09/21 - byddwn yn cadarnhau'r trefniadau gyda chi yn hwyrach.

Bydd yn wych gallu croesawi ein disgyblion newydd i flwyddyn 7 a'r 6ed ddydd Gwener ac edrychwn ymlaen yn fawr i groesawi bawb yn ôl i'r ysgol o ddydd Llun y 6ed o Fedi ymlaen. Os oes unrhyw gwestiwn gennych, peidiwch oedi i gysylltu ar y rhif neu'r e-bost isod.

Yn ddiffuant,

Simon Davies



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwrysydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

Ebost: SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies



BUDDSODDWR
MEWN POBL

Aur

